www.caerphilly.gov.uk/loopsandlinks

CwmfelinfachLINK
DOLENCwmfelin-fach

DOLENCwmfelin-fach
CwmfelinfachLINK

CROESO I GWMFELIN-FACH

Mae'r enw Cwmfelin-fach yn tarddu o felin wlanen fach a safai unwaith ger yr afon. Roedd y felin yn rhedeg ar ddŵr o Nant Draenog, a ddefnyddid yn aml i fedyddio'n lleol ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif.

Sefydlwyd y pentref wedi i'r lofa gael ei suddo ym 1902. Enw gwreiddiol y lofa oedd 'Coronation Colliery', ar ôl coroni'r Brenin Edward VII, ond yn ddiweddarach newidwyd ei enw i Pwynt Naw Milltir. Gellir gweld o hyd y caeadau sy'n cau tair siafft y lofa.

A wyddech chi?
Daw'r enw Pwynt Naw Milltir o hen dramffordd fu'n rhedeg o Gasnewydd i Dredegar. Adeiladodd Cwmni Camlesi Sir Fynwy, cwmni o Gasnewydd, wyth milltir cyntaf y dramffordd. Fodd bynnag, rhedai'r filltir nesaf drwy Barc Tredegar Syr Charles Morgan, a mynnodd mai ef fyddai'n adeiladu'r dramffordd ar ei dir ei hun. Mae wyth milltir cwmni'r Gamlas a milltir Morgan yn creu naw, a'r enw Pwynt Naw Milltir.

WELCOME TO CWMFELINFACH

The name Cwmfelinfach comes from a small flannel mill that once stood close to the river. The mill was powered by water from the Nant Draenog, which was used for many local baptisms during the late 18th and early 19th centuries.

The village owes its origin to the sinking of the colliery in 1902. The colliery was originally called Coronation Colliery, after the coronation of King Edward VII, but later changed its name to Nine Mile Point. The caps sealing off the three mine shafts can still be seen.v

Did you know?
Nine mile point takes its name from the old tram road running from Newport to Tredegar. Working from Newport the Monmouthshire Canal Company built the first eight miles of the tram road. However, the next mile ran through Sir Charles Morgan's Tredegar Park and he insisted on building the tram road on his land. The Canal company's eight miles and Morgan's one add up to nine hence the name Nine Mile Point.

loops links cylchoedd dolennt

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

CwmfelinfachLINK

loops links cylchoedd dolenni

What to see

The National Cycle Route travels through the spectacular scenery of the Sirhowy Valley Country Park, passing Ynys Hywel Activity Centre. The nearby former Presbyterian Chapel, 'Capel y Babel', which dates back to 1827, is important historically because of its links with the famous Welsh Bard Islwyn. Islwyn was the bardic name of William Thomas, who took his nom-de-plume from the nearby mountain of Mynyddislwyn. Islwyn is buried in the cemetery at the chapel, where there is also a monument in appreciation of his work.

Loops and Links artwork
Gwaith celf Cylchoedd a Dolenni

Capel y Babel

Cwmfelin-fach

The Sirhowy River
Afon Sirhywi

Ynys Hywel Activity Centre
Canolfan Weithgareddau Ynys Hywel

Facilities

Cyfleusterau

Loop & Link Information

Within this particular area there is a 'link' and a loop from the National Cycle Route. The link takes you past the historic Capel y Babel to the village and it's facilities. The 'loop' allows access between the village and Ynysddu along the picturesque Sirhowy Valley River. The National Cycle Route travels through the spectacular scenery of the Sirhowy Valley Country Park, passing Ynys Hywel Activity Centre.

Gwybodaeth am Gylchoedd a Dolenni

Yn yr ardal hon, ceir 'dolen' a 'chylch' o'r Llwybr Beicio Cenedlaethol. Mae'r ddolen yn mynd â chi heibio Capel y Babel sy'n drwch o hanes, i'r pentref a'i gyfleusterau. Mae'r 'cylch' yn creu cyswllt rhwng y pentref ac Ynysddu ar hyd afon hardd Cwm Sirhywi. Mae'r Llwybr Beicio Cenedlaethol yn rhedeg drwy olygfeydd trawiadol Parc Gwledig Cwm Sirhywi, gan fynd heibio Canolfan Weithgareddau Ynys Hywel.

Pethau i'w gweld

Mae'r Llwybr Beicio Cenedlaethol yn rhedeg drwy olygfeydd trawiadol Parc Gwledig Cwm Sirhywi, gan fynd heibio Canolfan Weithgareddau Ynys Hywel. Mae'r hen gapel Presbyteraidd, 'Capel y Babel' gerllaw, sy'n dyddio'n ôl i 1827, yn hanesyddol bwysig oherwydd ei gyswllt ag Islwyn, y bardd enwog o Gymru. Islwyn oedd enw barddol William Thomas, a gymerodd ei nom-de-plume o fynydd cyfagos Mynyddislwyn. Mae Islwyn wedi'i gladdu ym mynwent y capel lle ceir cofeb er anrhydedd i'w waith.'

DOLENCwmfelin-fach

www.caerphilly.gov.uk/loopsandlinks